
# Glas

Rhif 207
Mai 2025

Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd



"Trwdan" Nefyn
11 Ebrill 2025
Bethan Vaughan-Davies

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

## Mordawch rhyfeddol 11 Ebrill 2025 ar ddiwedd y don o wres a haul

**Roedd** *'sea haar'* **anhygoel neithiwr** (11 Ebrill) **yn Aberystwyth. Beth yw'r enw Cymraeg am hyn plîs? Neu unrhyw llên natur cysylltiedig? Diolch** **Cara Cullen**



# Cynigion am derm: *sea haar*

- **Niwl tesg** - Stiniog **Edwina Fletcher**


  Ffurf lafar ar 'tes' yn y gogledd yn ôl GPC

  "Tesg" yn cael ei ddefnyddio yma pan mae'r mynyddoedd i'w gweld dros ben y cymylau, fel roeddwn yn ei weld ar y ffordd adra ddoe i gyfeiriad Trefor ac ar y Llŷn. **EF**

- **Niwl môr** - Cyffredin ar arfodir y dwyrain yn gwynebu Môr y Gogledd yn y boreau, hefyd *'sea fret'*. **John Jones**
- **'Mordawch'** ydi'r term technegol (tawch - niwl, stêm, tarth) [pwyslais ar y sill cyntaf neu'r goben? **DB**] **Meirion Mcintyre Huws**

- Geiriadur yr Academi: *haar n. Meteor:* [-] mordawch *(m)*, *N.W:* rhwd *(m)* môr **Nest Gwilym**
- **Tarth ar y tir** **Lorna Herbert Egan**
- Ydi **'sêm wen Criccieth'** yr un peth? **'Glaw mawr drannoeth'** ? **Brenda Jones**

# Dyma GPC ar SÊM:




1937.

Ar lafar yn y Gogledd, *WVBD* 478; clywir y dywediad '*sêm* wen Criciath, glaw mawr dranno'th' 'gan gyfeirio at linell olau yn yr awyr o gyfeiriad Cricieth at Ben Llŷn', *BILIE* 37.

Drannoeth yn y fersiwn yna felly. Newydd edrach: un ystyr odiaeth ydi anghyffredin **BJ**

- Erioed wedi clywed am ***sea haar***. **Tarth** ydy hwn i mi. **Rhian a Seimon Glyn**
- **Tawch**. Llŷn **Elizabeth Jones**
- **Tawch** swni'n ddweud, tawch môr sydd yma. Tarth hefyd yn cael ei ddefnyddio dros dir. **Sian Evans**
- Cofio Geraint Percy yn ysgol Amlwch ers talwm yn sôn am **darth Amlwch** **Guto Roberts**




# Dyma Wiki ar *'sea haar'*

*In meteorology, haar or sea fret is a cold sea fog. It occurs most often on the east coast of Scotland between April and September, when warm air passes over the cold North Sea. The term is also known as* ***harr***, ***hare***, ***harl***, ***har*** *and* ***hoar***. Mwy ar Wiki - yma

## Cyfeiriad at HAAR yn y Tywyddiadur

- 2/3/1882 Caeredin

Ffynhonnell: Dyddiadur Charles Johnstone, Downpatrick, Co Down (diolch i James Robertson).


Nodiadau: *Mar 2nd. Thurs. Dull, rainy; raw & damp, E haar.*

## Cyfeiriad at FRET yn y Tywyddiadur (sylwch ar y lleoliad - arfordir y dwyrain)


- Mai cynnar 1936 Lle: Salthouse, Norfolk


Ffynhonnell: *British Birds* Awst 1936

Nodiadau: *A VERY unusual " hold-up " of small passerines occurred on the Norfolk coast in early May, 1936, details of which should perhaps be put on record?..LOCAL CONDITIONS AT SALTHOUSE (MAY 5TH-14TH). Following a period of north-east wind a sea-fret developed on the coast on May 5th and continued until the night of May 9th-10th when the wind backed to north-west and a drizzle began which lasted all day on the 10th. Heavy clouds and some mist prevailed again until the 13th, when the wind changed to south-west and May 14th was fine and warm. The barometer from May 8th to 14th remained steady at approximately 30.00 inches.*




**Ar ôl cyfnod o wres a haul dan wasgedd uchel rhwystrol** *(blocking high pressure),* **ers y 28 Mawrth 2025, daeth y mordawch hwn ddiwrnod cyn cyrraedd gwasgedd isel a glaw.** Dyma'r tywydd yn Waunfawr (Arfon) 'neithiwr' 11/4/25. Ddim digon oer i fod yn *'haar/fret'* faswn i'n tybio. (Oes yna rhywun yn cadw cofnodion mwy lleol i Aberystwyth?)




O sylwi ar y cwymp yn y gwasgedd awyr uchod, faswn i'n tybio mai 'darogan' rhywsut y newid sydd ar ei ffordd (glaw ysgafn yn disgyn yma am 16.00, 12/4/25) oedd y mordawch (y bandiau fertigol yn cynrychioli dyddiadau Ebrill 2025).

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!


Glas

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

## 'Gweld' cân gynta'r gog

Clywais gwcw gynta'r flwyddyn ar Gors Caron pnawn ma, a'i dal ar yr app Merlin hefyd. **Cathryn Charnell**




Mae yna lawer o ganeuon adar eraill i'w cymharu. Melys moes mwy **Golygydd**

## Tegeirian coch y gwanwyn

Mae'r lleoliad ar y tun! 20 Ebrill 2025

**Scott Saunders**



## Aderyn y mis



Tulluan Glustiog, Sir Fôn... 20 Ebrill 2025

**David Jones**

# Mis Ar Ôl Tanau Mawrth


Iwan Williams ■ Sbio ar y Berwyn o Glawdd Newydd heno 'ma ■ 20 Mawrth 2025











**PWY NEU BETH SY'N GYFRIFOL AM DANAU? POBL YNTEU TYWYDD?**

Mae'r cyfryngau yn aml yn rhoi y bai ar bobl ond mae'n rhaid i'r amodau bod yn ffafriol cyn bod unrhyw farbeciw yn troi yn dân gwyllt.

Yn yr achosion uchod, yn ffodus, tân arwynebol sydd yma ac mae'r tyfiant wedi goroesi.

# Cŵn a phobol trwy'r oesoedd

**Y cwlwm rhwng cwn a phobol trwy'r oesoedd – a'u henwau** ■ *Over 3,500 years ago, during the reign of Pharaoh Amenhotep II (1427–1401 BC), a loyal hunting dog was carefully mummified and laid to rest. Discovered inside tomb KV50 in the Valley of the Kings, this remarkable canine was buried alongside a baboon, highlighting the special status animals held in ancient Egyptian society.*

*Today, the mummified dog is displayed at the Egyptian Museum in Cairo, preserved as a rare example of the deep bond between humans and animals in one of history's greatest civilizations. With its delicate features still visible, this ancient guardian continues to share a story of companionship, loyalty, and reverence from a bygone era.*




**Giff Gaff** daly daly dwg dwg

Dau gi yn y Gododdin (suo gân Pais Dinogad). Tybed ai cŵn tebycach i hwn oedd Giff a Gaff er yn ddiweddar iawn (7g.) o gymharu â chi'r Pharo?

■■■

## A dyma hanes sawl PERO

■■■■■ Dyddiad 19 Awst 1925 **Lle: Llansilyn, Sir Dinbych**

Ffynhonnell: Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych. 1900 - 1967. [Mewnbwn gan Tom Jones]

Nodiadau: ...Hugh Moelfre Hall yn dwad heibio i nol **Pero** i fynd i gyfarfod wyn.

■■■■■ Dyddiad 3 Mai 1947 **Lle: Ty Uchaf, Padog**

Ffynhonnell: Dyddiadur DO Jones, Padog

Nodiadau: Mynd a **Pero** y ci i Llandrillo hefo'r car yn y pnawn. Dod adre 9.30yh, bugeilio, tranu ymhell, eira, heulog.

■■■■■ Dyddiad: 3 Mawrth 1950 **Lle: Ty Uchaf, Padog**

Ffynhonnell: Dyddiadur DO Jones, Padog

Nodiadau: Chwilio am **Pero** a **Juno** yn bob man, y mynydd a ffridd llech, dwad adre ei hunain.

■■■■■ Dyddiad 21 Mehefin 1958 **Lle: Padog, Ysbyty Ifan**

Ffynhonnell: Dyddiadur D O Jones, Padog

Nodiadau: ...Meredydd a Bet i Llannerch Gwynion , cerdded i lawr i Benmachno, ffonio adref, **Pero** wedi torri ei goes yn y mynydd.

■■■

## Dyma hanes RANTER druan, ci William Bulkeley

(mae 7 cofnod arall ar ôl hwn yn y Tywyddiadur):

■■■■■ Dyddiad 29 Awst 1734 **Lle: Brynddu, Llanfechell, Môn**

Ffynhonnell: *Trans. AAS&FC 1931 (The Diary of William Bulkeley of Brynddu, Anglesey: Owen, H & Griffiths JE)*

*Nodiadau: Aug. 29. My poor dog "**Ranter**" was bit by a viper, which I killed and immediately opened and took out her fat which was near an ounce in weight and by the time I had come home from the reapers where the poor dog was bit, the part was swollen mightily, and putting a spatula in the fire and making it red hot and holding it over ye place so bit and anointing the part at the same time with fat melted and applied very hot, the dog by night was pretty well, ye swelling almost vanished and I hope he will do very well. ye place so bit and anointing thewon by Caerdegog people.*

■■■

■■■■■ Dyddiad 10/11/1822 **Lle: Penmorfa, Gwynedd**

Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau - Penmorfa

Dydd Sul. Diwrnod sych lled ddistaw. Y Tarw oedd wedi dwad trosodd i'r caemain yn taro y **Fastiffgast** yn y clawdd ac yn ei lladd

## Mae enwau hanesyddol cŵn yn agor cil y drws ar eu bywydau. Dyma COWRAS

■■■■■ Dyddiad 24/6/1820 **Lle: Fron Olau, Penmorfa**

Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau - Penmorfa

Dydd Sadwrn. Cowras yn bwyta'r arenau rhag imi wybod eu cyfri. ac yn bwyta'r menun gwyryf cael drwg mawr gan Elin o'r achos.

■■■■■ Dyddiad 15 Rhagfyr 1821 **Lle: Penmorfa**

Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau - Penmorfa

Dydd Sadwrn. Diwrnod dwl claiar ac yn bwrw gwlaw mân dwys yn y boreu. yn hel yr hen Defaid i'r Mynudd o ran eu bod yn mynd i'r Adladd wrth i'r Lleuad oleuo cyn Dydd. **Cowras** yn dal Ysgyfarnog yn yr Allt wrth Gorlan y Pant hir

[ai ci hela ta ci defaid oedd **Cowras**... gan gofio nad oedd y *Border Collie* (oedd â'r gallu i rowndio defaid) ddim wedi cyrraedd Cymru yn yr 1820au]

# Gwlithen y selerydd



Gwlithen ger Sanclêr, Sir Gâr
2 Ebrill 2025 Llinos Mair Thomas

Tebyg i'r wlithen yma [isod] - *green cellar slug* Limacus maculatus ar wal y tŷ yn Llanuwchllyn Mai 31 [2018].

**Dwynwen Murray**



**Kama swtra'r malwod**



Dwy falwen yn caru (am wn i!). Tynnais y llun ryw bum mlynedd yn ôl. Yn rhyfedd iawn, maent yn caru ar y wal.

Sion Jones


Meddai Sion yn ddiweddarach: "Tynnais y llun tu allan i dŷ fy chwaer sydd yn byw yng Nghaerdydd. Rwyf wedi edrych am y dyddiad a mae'r gwybodaeth yn dweud mae ar y 3ydd o Awst 2004. A finne'n meddwl ryw bedair blynnedd yn ôl tynnwyd y llun".

Tydi amser yn hedfan pan rydych yn joio cymaint! Dyma ambell osgo carwrol arall yn perthyn i'r falwen: lluniau gan Steve Roddick, Ifor Williams

Mae'n debyg mai gwlithen llewpard yw hon a hwn yw dull arferol hon i garu **This species has a very unusual and distinctive mating method, where the pair of slugs use a thick thread of mucus to hang suspended in the air from a tree branch or other structure".*

**Union gant o rifynnau'r Bwletin yn ôl (Rhif 106)**




**AR WICIPEDIA CYMRAEG :** Nid yw'r gwahanol deuluoedd o wlithod yn perthyn yn agos, er gwaethaf y tebygrwydd o ran eu ffurf. Mae'r cyflwr di-gragen wedi ymddangos lawer gwaith yn annibynnol yn ystod y gorffennol ac felly mae'r categori "gwlithen" yn un lluosdylwythol.

Mae anatomi allanol gwlithen yn cynnwys tentaclau, mantell, cynffon, cêl, troed a weithiau cragen weddilliol.

Mae gwlithod yn ddeurywiol, gydag organau atgenhedlu gwrywaidd a benywaidd. Wedi esgor, maent yn dodwy tua deg ar hugain o wyau mewn twll yn y ddaear neu dan gysgod gwrthrych fel boncyff.

# Bwyd i'r cywion



**Brych y coed, Llanelwy , 22 Ebrill 22**

**Alun Williams**

Dwi'n meddwl mai'r bardd Ted Hughes ddywedodd am y fronfraith ***'more coiled steel than living'***. Grym y metaffor perffaith!


## Bore braf yn Nhanygrisiau




**Mae'r llun hwn yn gofyn am gapsiwn**

Bore braf yn Nhanygrisiau. **Iwan Williams**

Fe greuwyd argraff dros flynyddoedd bod clochdar y cerrig yn aros yma drwy'r flwyddyn sydd yn caniatáu iddo fagu dau nythaid o gywion, tra bod ei chwaer rhywogaeth **crec yr eithin** yn mudo i'r de ar ôl magu un nythiad o gywion yn unig. Ond mae'r holl ddata modrwyo sydd ar gael i ni bellach yn awgrymu bod y patrwm mudo rhywbeth yn debyg (y clochdar efallai yn aros 'adref' mwy na'r crec ond hyn ddim mor amlwg yn y graff mudo. Dyma ddeunydd y capsiwn efallai... 'ia' Cymru neu 'na' Cymru (efallai mai jest pasio trwodd mae hwn)?




## Mae 'na Fistar ar Mistar Mostyn



Is deitl i ...Mistar Mostyn

Gwas y gog yn ben ar gyw y gog : Y Mistar ar Mistar Mostyn

Llun ar Ynys Skye gan Bob McMillan (trwy law John Jones)

Mae hwn yn fy atgoffa o'r ffilm **The Servant** efo Dirk Bogarde. Dyma 'was y gog' (corhedydd y waun) wedi troi'r drol fel petai ar ei 'fistar' (dim ond fy ffansi ar ddiwrnod braf!). Wedi mwynhau'r ffilm sawl gwaith.

## Gwyfynod Gŵyl Pensychnant




Llên Natur – Cymdeithas Edward Llwyd

Cyfres Posteri **Glas**

# Ffosil byw o'r Jwrasig: MARCHRAWN

### Marchrawn yn y gwanwyn: 12 Ebrill 2025 Nant Gwrtheyrn



## Ymddangosodd marchrawn modern am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod Jwrasig. "Ffosil byw" go iawn yw'r planhigyn hwn.

Mae marchrawn yn grŵp o blanhigion fasgwlar o'r genws *Equisetum*. Mae'r marchrawn sy'n goroesi heddiw yn o gyfnod y Jwrasig pan gawson nhw ail wynt yn eu hesblygiad.


Maent yn tyfu mewn cynefinoedd llaith ledled y byd. Mae ganddynt goesynnau a rhisomau cymalog ac mae gan rai rhywogaethau gylchoedd o ganghennau. Maent yn cynhyrchu "conau" *(strobili)* sy'n cynnwys y sborau.

Roedd is-ddosbarth cyfan *Equisetidae*, a oedd am dros 100 miliwn o flynyddoedd yn llawer mwy amrywiol ac yn dominyddu isdyfiant coedwigoedd Paleosöig hwyr (Paleosöig: Rhwng 539 a 252 miliwn o flynyddoedd yn ôl). Roedd rhai *equisetids* yn goed mawr yn cyrraedd 30 m o daldra!

Dywedir i'r patrwm o fylchau nodau yn marchrawn, lle mae'r rhai hynny tuag at frig y saethu yn gynyddol agos at ei gilydd, wedi ysbrydoli John Napier i ddyfeisio logarithmau.

Wikimedia Commons – Wicipedia: Y Gwyddoniadur Rhydd


### Rhywogaethau morol a dyfrol



*Pliosaurus* (dde) yn bwlio *Leedsichthys*.



Ffosil o *Ichthyosaurus* o'r Jwrasig Cynnar ar lechen yn ne'r Almaen, gyda chorff siâp dolffin.




*Muraenosaurus*



Gastropod gyda chragen ddeuglawr *mytilid* yn sownd ynddo yn ne Israel.

### Rhywogaethau tirol



*Diplodocus* - dros 30 m, sauropod cyffredin ar ddiwedd y cyfnod Jwrasig.



*Allosaurus* - un o ysglyfaethwr mwyaf y cyfnod.




*Stegosaurus* - un o'r genera hawsaf i'w nabod.



*Archaeopteryx*, aderyn cyntefig a esblygodd tua diwedd y cyfnod Jwrasig.

## Ffawna'r Jwrasig

150 miliwn o flynyddoedd yn ôl




Cyfnod daearegol yw'r Jwrasig sy'n ymestyn am tua 50 miliwn o flynyddoedd yng nghanol y gorgyfnod Mesosöig sef 'Oes yr Ymlusgiaid'.

Enwir y Jwrasig ar ôl mynyddoedd y Jura, yn agos i'r Alpau, ble adnabuwyd strata calch o'r cyfnod hwn am y tro cyntaf. Alexander von Humboldt oedd y daearegydd a wnaeth y dargafyddiad hwn, gan ei alw'n "Jura-Kalkstein" ('Calchfaen y Jwra') yn 1799.